OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2914

# Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

## RHAN 5

*Offeryn Llywodraethu*

**Adolygu offerynnau llywodraethu**

**35.**—(1) Caiff y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol adolygu'r offeryn llywodraethu ar unrhyw adeg wedi iddo gael ei wneud.

(2) Os bydd y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol yn penderfynu wedi unrhyw adolygiad y dylid amrywio'r offeryn llywodraethu, rhaid i'r corff llywodraethu neu (yn ôl fel y digwydd) yr awdurdod addysg lleol roi gwybod i'r llall am yr amrywiad a gynigir ganddo ynghyd â'i resymau dros gynnig amrywiad o'r fath.

(3) Pan fo'r corff llywodraethu wedi derbyn hysbysiad o dan baragraff (2), rhaid iddo hysbysu'r awdurdod addysg lleol a yw'n fodlon â'r amrywiad a gynigir ai peidio ac, os nad yw'n fodlon, am ba resymau.

(4) Pan fo gan ysgol lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â rhoi i'r awdurdod addysg lleol—

(a) unrhyw hysbysiad o dan baragraff (2), na

(b) hysbysu'r awdurdod o dan baragraff (3) ei fod yn fodlon â'r amrywiad a gynigir gan yr awdurdod,

oni fo'r personau a restrir yn rheoliad 34(2) wedi cymeradwyo'r amrywiad a gynigir.

(5) Os—

(a) yw y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol, pa un bynnag sy'n cael hysbysiad o dan baragraff (2), yn cytuno â'r amrywiad a gynigir, neu

(b) oes cytundeb rhwng yr awdurdod addysg lleol, y corff llywodraethu ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig) y personau eraill a restrir yn rheoliad 34(2) y dylid gwneud rhyw amrywiad arall yn hytrach,

rhaid i'r awdurdod addysg lleol amrywio'r offeryn llywodraethu yn unol â hynny.

(6) Os bydd, yn achos ysgol sydd â llywodraethwyr sefydledig, y personau a restrir yn rheoliad 34(2) ar unrhyw adeg yn anghytuno â'r amrywiad a gynigir, caiff unrhyw un neu unrhyw rai o'r personau hynny ei gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac o gyfeirio felly, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd fel y gwêl yn dda gan ystyried, yn arbennig, y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo.

(7) Os nad yw is-baragraffau (a) na (b) o baragraff (5) yn gymwys yn achos ysgol nad oes ganddi lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol—

(a) rhoi gwybod i'r corff llywodraethu y rhesymau—

(i) pam nad yw'n fodlon â'r amrywiad a gynigir gan y corff llywodraethu, neu yn ôl fel y digwydd,

(ii) pam y mae'n dymuno mynd ymlaen â'i amrywiad ei hun, a

(b) rhoi cyfle rhesymol i'r corff llywodraethu ddod i gytundeb ag ef mewn perthynas â'r amrywiad;

a rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei amrywio ganddo naill ai yn y modd y cytunwyd arno rhyngddo a'r corff llywodraethu neu (yn niffyg cytundeb o'r fath) mewn modd fel y gwêl yn dda gan ystyried, yn arbennig, y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo.

(8) Ni ddylid ystyried bod dim yn y rheoliad hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol amrywio'r offeryn llywodraethu os na chred ei bod yn briodol gwneud hynny.

(9) Pan amrywir offeryn llywodraethu o dan y rheoliad hwn—

(a) rhaid i'r offeryn nodi'r dyddiad y daw'r amrywiad i rym; a

(b) mae rheoliad 33(3) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw amrywiad sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r corff llywodraethu i'w gyfansoddi fel petai'n cyfeirio at y dyddiad y gwneir yr amrywiad yn hytrach na'r dyddiad y gwneir yr offeryn.